CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR
COFNODION CYFARFOD
6 Gorffennaf 2022, yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng. D Gwyn, N. Jones, Ll. Roberts, A Mummery, A. Le Cras (Clerc) Aelodau'r Cyhoedd D. Idriswyn Roberts, S. Hughes.	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Cyng. J Jones, R. Williams, (Cyngor Sir)
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**ETHOL SWYDDOGION** Etholwyd Dewi Gwyn fel Cadeirydd a Nia Jones fel Is-Gadeirydd
4.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03/05/22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. A. M. yn cynnig a Ll. R. yn eilio.
5.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
5.1	**CYFETHOL AELODAU** Ar ôl hysbysebu'r 3 set wag cafwyd geisiadau ysgrifennedig gan dri ymgeisydd (D. Idriswyn Roberts, Selwyn Hughes ac Owain Evans). Cyfetholwyd y tri yn ddiwrthwynebiad.
5.2	**MAES CHWARAE STAR** • Mae'r coed yn y cae chwarae yn dioddef o glefyd gwywiad yr onnen (ash dieback). Yn anffodus cafwyd gyngor gan Ed Henderson (Uwch Swyddog Tirlunio a Choed Cyngor Ynys Môn) bod angen eu torri. Penderfyniwyd gwneud hyn ar fyrder cyn y gwyliau'r haf (cost £1850) • Y cwmni sy'n torri'r glaswellt heb wneud gwaith o safon yno (darnau ar yr ochr heb eu cyffwrdd o gwbl). Y Clerc am gysylltu hefo'r cwmni. • Y Clerc am barhau i chwilio am grantiau er mwyn datblygu'r cyfleusterau yno.
5.3	**Gor yrru a materion diogelwch ffyrdd** Er mwyn ceisio lleihau'r goryrru trwy Penmynydd a Star penderfyniwyd ymuno â'r cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol lle mae aelodau cymunedau, mewn partneriaeth â'r heddlu, yn defnyddio dyfeisiau datgelu i fonitro cyflymder cerbydau yn lleol. Bydd angen gwirfoddolwyr ar gyfer y cynllun, y Clerc i osod neges ar dudalen Gweplyfr y Cyngor
6.0	**MATERION ARIANNOL** Bydd angen cynnal cyfarfod ychwanegol mis nesaf (27/07/22 am *16:00) er mwyn arwyddo a thystio ffurflenni archwiliad ariannol hefo'r Clerc. Cyfarfod byr iawn i gworwm (tri neu bedwar aelod) Nia, Alun a Dewi wedi cytuno mynychu'r cyfarfod yma ar ran pawb.
7.0	**MATERION ERAILL** Dim
8.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** Dim
Llofnod: Cadeirydd	**Dyddiad: 07/09/22**